# CASCADE Partneriaeth



Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# 2020 - 2021
# Adroddiad Blynyddol





## Partneriaid seilwaith CASCADE

CASCADE

ExChange CASCADE

SAIL DATABANK

Cardiff University Prifysgol Caerdydd – Centre for Trials Research / Canolfan Ymchwil Treialon

Cardiff University Prifysgol Caerdydd – School of Psychology / Ysgol Seicoleg

CASCADE Voices

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru – Welsh Government

# Cynnwys


**1. Trosolwg y Cyfarwyddwr** 4

**2. Pwy yw pwy o fewn Partneriaeth CASCADE** 5

Pecynnau Ymchwil 6

Pecynnau Ategol 6

**3. Trosolwg o'r flwyddyn** 7

Llwyddiant ymchwil 8

Rhannu ein hymchwil 8

Gwneud gwahaniaeth 9

**4. Ein dull ymchwil** 10

Ymchwil werthusol 11

Cysylltu data 13

Effaith ymchwil 15

Cyflawniadau ymchwil 16

**5. Ymgysylltu a Chynnwys** 17

Lledaenu'r gair Y Cyfryngau 17

Ymgysylltu â'r sector: rhwydwaith ExChange 18

Cynnwys y Cyhoedd 19

**6. Casgliad** 22




# 1. Trosolwg y Cyfarwyddwr

Nod Partneriaeth CASCADE yw gwella canlyniadau a phrofiadau i blant, rhieni ac eraill sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol plant, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud gwaith ymchwil o ansawdd uchel, cynnwys plant a rhieni yn ein gwaith, ac ymgysylltu'n weithredol â'r sector wrth wneud defnydd o'n canfyddiadau.

Mae ein partneriaeth yn dwyn ynghyd y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE) yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, y Ganolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol yn yr Ysgol Seicoleg, y Ganolfan Treialon Ymchwil (i gyd ym Mhrifysgol Caerdydd), a'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) (ym Mhrifysgol Abertawe). Mae hyn yn ein caniatáu i gyfuno dealltwriaeth fanwl o ofal cymdeithasol plant â rhagoriaeth ryngwladol mewn ymchwil werthusol, seicoleg ddatblygiadol, a chysylltu data.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu blwyddyn gyntaf ein cyllid seilwaith, o fis Ebrill 2020 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021. Nid oedd hon yn flwyddyn fel yr un arall – gyda phandemig byd-eang yn amharu ar gynlluniau ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonom feddwl yn greadigol am sut i gydweithio mewn cyfnod heriol. Nid yw wedi bod yn flwyddyn hawdd, ac eto ar y cyfan, mae wedi bod yn ddechrau eithriadol o lwyddiannus i'r bartneriaeth. Rydym wedi rhagori ar ein disgwyliadau ein hunain o ran cipio grantiau a chyhoeddiadau ac o ran ymgysylltu a dylanwad yn y sector. Rydym hefyd wedi gosod y sylfeini ar gyfer llwyddiant tymor hwy drwy waith cydweithredol agosach, yn ogystal â gweld ymchwilwyr unigol yn ennill gwobrau ac yn gwneud cynnydd proffesiynol. Mae'n bleser rhannu rhywfaint o'r llwyddiant hwnnw yn yr adroddiad hwn.

**Donald Forrester**

Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a’r Teulu, Prifysgol Caerdydd, Cyfarwyddwr Partneriaeth CASCADE

CASCADE

*"CASCADE yw un o'r canolfannau ymchwil gofal cymdeithasol plant mwyaf blaenllaw yn y DU. Drwy astudiaethau allweddol fel gwerthuso gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion neu lety diogel, maent wedi ein helpu i ddatblygu a chyflawni rhaglenni hanfodol gan y llywodraeth sydd â'r nod o wella canlyniadau i blant a'u teuluoedd."*

**Isabelle Trowler**

Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Plant a Theuluoedd yn Lloegr

# 2. Pwy yw pwy o fewn Partneriaeth CASCADE


Mae'r bartneriaeth yn dod â phedair canolfan ymchwil at ei gilydd. Cawn ein harwain gan Fwrdd Llywodraethu sy'n cyfarfod bob chwarter – er bod llawer o'n bywiogrwydd a'r gwaith a wneir gennym i greu syniadau newydd yn dod o'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'n gilydd yn datblygu a chyflawni prosiectau neu feysydd gwaith penodol a diwrnodau i ffwrdd a seminarau rheolaidd.



**Mae Donald Forrester** yn Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a'r Teulu ac yn Gyfarwyddwr CASCADE. Mae'n Gyfarwyddwr y Bartneriaeth ac mae'n gyfrifol am oruchwylio ei holl waith.



**Mae Alyson Rees** yn Ddarllenydd mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. Mae Alyson yn arwain ein gwaith ymgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol i Gymru gyfan – a elwir yn ExChange.



**Mae David Wilkins** yn Uwch-ddarlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CASCADE. David sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu proffil, dylanwad ac effaith allanol y bartneriaeth.



**Mae David Ford** yn Athro mewn Gwybodeg ac yn Gyfarwyddwr Gwyddor Data Poblogaeth yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe. Mae'n arwain cyfraniad SAIL, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu portffolio o astudiaethau gan ddefnyddio dulliau cysylltu data uwch a gymhwysir at ofal cymdeithasol plant.



**Mae Mike Robling** yn Athro ac yn Gyfarwyddwr Treialon Iechyd y Boblogaeth yn y Ganolfan Treialon Ymchwil. Mae'n arwain cyfraniad y Ganolfan Treialon Ymchwil ac mae ganddo rôl allweddol yn datblygu dulliau gwerthuso cymhleth ac arloesol ar gyfer gofal cymdeithasol plant.



**Mae Jonathan Scourfield** yn Athro mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr CASCADE. Mae ganddo rôl allweddol yn y gwaith o ddatblygu ein gwaith yn cymhwyso cysylltu data â gofal cymdeithasol plant.



**Jo Parry** yw Rheolwr y Ganolfan yn CASCADE ac mae'n arwain ar y ddarpariaeth effeithlon o gymorth gwasanaethau proffesiynol ar draws y bartneriaeth.



**Mae Katherine Shelton** yn Athro mewn Seicoleg ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Katherine yn arwain ar ddatblygu portffolio o astudiaethau sy'n edrych ar effeithiau seicolegol ymwneud â gofal cymdeithasol plant megis gofal a mabwysiadu a sut i wella canlyniadau i blant.

## Mae ein hymchwil wedi'i rhannu'n ddau brif becyn gwaith

**Ymchwil werthusol –** yn hanesyddol ychydig iawn o ymchwil mewn gofal cymdeithasol plant sydd wedi gwerthuso 'beth sy'n gweithio'. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod ymchwil o'r fath yn gymhleth ac yn heriol. Rydym yn ceisio cynhyrchu dulliau effeithiol ac arloesol i wynebu'r heriau hyn.

**Cysylltu data –** mae dadansoddi a chysylltu data sy'n bodoli eisoes yn cynnig cyfle i ymchwilio i anghenion, gwasanaethau a chanlyniadau mewn gofal cymdeithasol plant mewn ffyrdd nad ydynt wedi bod yn bosibl hyd yma. Rydym yn dwyn ynghyd gymorth methodolegol a seilwaith arloesol i ddarparu ymchwil newydd a blaengar yn y maes hwn.

## Gwneir yr ymchwil hon yn bosibl gan ddau becyn gwaith ategol pwysig

**Cynnwys y cyhoedd –** rydym yn ceisio cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr ar draws ein holl waith, ac mae cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ein galluogi i ddatblygu grwpiau a rhwydweithiau i hwyluso hyn.

**Ymgysylltu â'r cyhoedd a chymorth ymchwil –** mae tîm gwasanaethau proffesiynol yn cefnogi ein hymchwil, ac yn galluogi un o'r ymdrechion ymgysylltu ymchwil mwyaf yn y DU, drwy ein rhwydwaith gofal cymdeithasol Cymru gyfan, ExChange.

*"Mae Partneriaeth Cascade wedi cael blwyddyn aruthrol o dan gyllid seilwaith newydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, gan roi portffolio sylweddol o brosiectau a allai fod yn effeithiol iawn at ei gilydd, a datblygu ymgysylltiad gwirioneddol ystyrlon â darparwyr gofal cymdeithasol a defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Rydym yn arbennig o falch ein bod yn datblygu dulliau data cysylltiedig newydd iawn ar gyfer deall llwybrau a chanlyniadau ar gyfer plant mewn gofal."*

**Yr Athro David Ford**

Banc Data SAIL, Prifysgol Abertawe

*"Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol eleni o ran datblygu prosiectau rhyngddisgyblaethol, gan ein galluogi i ddechrau mynd i'r afael â chwestiynau a heriau heb eu hateb ym maes gofal cymdeithasol plant gyda mewnwelediadau, dulliau methodolegol a mentrau cydweithredol newydd."*

**Yr Athro Katherine Shelton**

Partner CASCADE, Ysgol Seicoleg



# 3. Crynodeb o'r flwyddyn

## Metrigau Craidd
Cyfnod adrodd: **2020/2021**

CASCADE Partneriaeth

### Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **£534k**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **13**

### Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 14 | 2 |
| Gwerth | £2.1m | £74.4k |
| Cyllid i Gymru | £2.1m | £74.4k |
| Cyllid i grŵp | £2m | £22.6k |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 23 | 1 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 23 | 1 |

**43** Nifer y cyhoeddiadau

**25** Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd

**36** Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Llwyddiant ymchwil

Rydym wedi cael llwyddiant ysgubol o ran cipio grantiau. Yn ein blwyddyn gyntaf, cawsom 16 o grantiau newydd (cyfanswm gwerth £2.2 miliwn), ac rydym yn aros i glywed y canlyniad ar gyfer naw arall, y mae chwech ohonynt wedi cyrraedd y rhestr fer. Mae uchafbwyntiau grant newydd yn cynnwys yr hap-dreial dan reolaeth gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion (yr hap-dreial dan reolaeth mwyaf mewn gofal cymdeithasol plant a gynhaliwyd erioed yn y DU), astudiaethau allweddol mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol a throseddol ar blant, ymchwil sy'n berthnasol i bolisi gyda'r nod o leihau'r angen i blant fod mewn gofal yng Nghymru, a rhaglen o astudiaethau arloesol sy'n cynnwys cysylltu data. Mae gan bob un o'r rhain ei adran ffocws ei hun yn ein hadroddiad.

Mae'r rhain yn astudiaethau pwysig, llawer yn archwilio pynciau newydd, yn datblygu datblygiadau arloesol methodolegol, neu'n creu ymchwil gyda goblygiadau polisi ac ymarfer. Mae hefyd wedi bod yn wych gweld ein llwyddiant o ran ehangu'r gronfa o brif ymchwilwyr – mae ein portffolio o 32 o brosiectau yn cynnwys 19 o brif ymchwilwyr. Nid drwy ddamwain y mae hyn wedi digwydd – mae'r cyllid seilwaith wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a hyder ymchwilwyr cynnar a chanol gyrfa drwy hyfforddiant, mentora a chefnogaeth wrth ddatblygu ceisiadau a chyflwyno prosiectau. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi a goruchwylio 52 o fyfyrwyr doethurol ar draws Partneriaeth CASCADE. Mae gennym gymuned weithredol a chynyddol o ôl-raddedigion sy'n ymwneud â'r canolfannau, gyda llawer yn cael profiad ymchwil yn gweithio ar ein prosiectau.

Mae cydweithio ar draws y bartneriaeth wedi'i wella – roedd bron pob un o'n cynigion mwy eleni yn cynnwys dau neu fwy o'n canolfannau. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd sylweddol mewn cydweithio rhwng canolfannau.

## Rhannu ein hymchwil

Bu ein llwyddiant wrth rannu canfyddiadau ymchwil yr un mor bwysig. Rydym wedi cyhoeddi 27 o erthyglau, ynghyd â deg adroddiad a saith cyhoeddiad arall. Uchafbwynt penodol oedd Dr Martin Elliott yn ennill gwobr Erthygl y Flwyddyn gan y British Journal of Social Work a Chymdeithas Ymchwil Gwaith Cymdeithasol Ewrop am ei waith pwysig ar gyfraddau tlodi a gofal yng Nghymru.

Mae'r cyllid seilwaith hefyd wedi ein galluogi i sefydlu gwaith ExChange ar sail fwy diogel. ExChange yw'r rhwydwaith ymgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol Cymru gyfan. Roedd craidd gwaith ExChange yn arfer bod yn weithdai a chynadleddau. Roedd angen ad-drefnu'n gyflym yn sgil y pandemig – ac rydym bellach yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau ac adnoddau ar-lein. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn, gan ganiatáu i ymarferwyr prysur gael mynediad at ddigwyddiadau, sgyrsiau, podlediadau a blogiau yn ôl eu hangen.



# Gwneud gwahaniaeth

Diben Partneriaeth CASCADE yn y pen draw yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant a theuluoedd. Felly, mae wedi bod yn galonogol gweld cyrhaeddiad ehangach ein gwaith. Mae rhywfaint o'r hyn drwy gymryd rhan uniongyrchol mewn astudiaethau: er enghraifft, mae'r hap-dreial dan reolaeth gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion yn gweithio gyda 291 o ysgolion yn Lloegr ac mae bron i 300 o weithwyr gofal cymdeithasol wedi cymryd rhan yn Rowndiau Schwartz fel rhan o'n hap-dreial dan reolaeth. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag ymarferwyr mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn gwneud gwerthusiadau llai ac ymchwil weithredol, sy'n tueddu i gael effaith fwy uniongyrchol yn ogystal ag weithiau arwain at brosiectau ar raddfa fwy.

Ar lefel polisi, mae ein gwaith ar pam mae cyfraddau gofal yng Nghymru mor uchel yn bwydo i mewn i ddatblygiad polisi cenedlaethol a lleol. Yn Lloegr, lansiwyd Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant, gyda chylch gwaith i gyflwyno diwygiadau helaeth. Mae CASCADE wedi cyflwyno tystiolaeth ac argymhellion ymchwil i'r tîm adolygu, ac rwy'n eistedd ar Banel Tystiolaeth yr adolygiad.

Rydym hefyd yn datblygu cysylltiadau mwy rhyngwladol. Rydym wrth ein bodd bod yr Athro Colette McAuley wedi ymuno â'r ganolfan fel Athro Anrhydeddus ac yn datblygu ein gwaith rhyngwladol ar les plant. Mae'r Athro Heather Taussig yn ymuno â ni o Brifysgol Denver – un o'r prif ganolfannau ymchwil gwaith cymdeithasol yn UDA – ar Gymrodoriaeth Fulbright. Rydym bellach yn rhan o astudiaethau yn Nenmarc a'r Ffindir, gan ddefnyddio dulliau methodolegol a ddatblygwyd yn CASCADE, ac mae gennym bartneriaeth â Phrifysgol Gatholig Milan, un o'r canolfannau mwyaf blaenllaw ar gyfer gwaith cymdeithasol yn yr Eidal, i ddarparu addysgu blynyddol i'w myfyrwyr PhD mewn methodolegau gwerthuso.

Un o nodau canolog y bartneriaeth yw cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad uniongyrchol o ofal cymdeithasol plant wrth lunio ac arwain ein gwaith. Mae datblygu'r maes hwn yn ystod pandemig wedi bod yn arbennig o anodd. Er hynny, drwy ymroddiad ein harweinydd cyfranogiad, rydym wedi parhau i weithio gyda rhwydwaith presennol o bobl ifanc â phrofiad o ofal, ac wedi datblygu rhwydweithiau newydd o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth eraill, gan gynnwys grŵp o famau sydd â phrofiad o amddiffyn plant, y mae pob un ohonynt wedi helpu i lywio ein hastudiaethau a'n ceisiadau am grantiau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi mwy o fanylion am ein blwyddyn gyntaf – gyda ffeithiau a ffigurau, ffeithluniau ac astudiaethau achos. Gobeithiwn y bydd yn dod â'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn fyw. Mae wedi bod yn flwyddyn gyntaf eithriadol heb os nac oni bai. Mae'n fwy rhyfeddol fyth wrth ystyried iddo gael ei gyflawni yn ystod cyfnod o newid a heriau o'r fath. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y tîm anhygoel sydd gennym ar draws y bartneriaeth – a'r rhwydwaith cyfoethog o ffrindiau a chydweithwyr rydym yn ddigon ffodus i fod wedi'i ddatblygu.

Fy lwc dda fel cyfarwyddwr yw ysgrifennu cyflwyniad o'r fath yn amlinellu cyflawniadau ein blwyddyn gyntaf – llwyddiant yn seiliedig ar arbenigedd, ymroddiad a gwaith caled llawer o bobl. I'r rhai oedd yn cymryd rhan, gobeithio eich bod yn teimlo bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud. I'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan eto, rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi ymdeimlad o'r gwahaniaeth y mae Partneriaeth CASCADE wedi ymrwymo i'w wneud ar gyfer plant a'u teuluoedd yng Nghymru a thu hwnt.

**Donald Forrester**

Ar ran Partneriaeth CASCADE



# 4. Ein dull ymchwil

Yma rydym yn darparu rhai astudiaethau achos o ymchwil o'n blwyddyn gyntaf fel partneriaeth a ariennir.

Rydym yn darparu'r rhain mewn perthynas ag:

- Ymchwil werthusol
- Cysylltu data
- Gwneud gwahaniaeth

*"Chwaraeodd CASCADE ran allweddol yn y gwaith o sefydlu Canolfan yr Hyn sy'n Gweithio – ac mae'n parhau i fod yn un o'n partneriaid pwysicaf wrth ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gofal cymdeithasol plant. Mae ei hymchwilwyr yn rhan hanfodol o'n huchelgais i chwyldroi a gwella ymchwil ym maes gofal cymdeithasol plant. Mae hyn yn cynnwys ein treial Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion, sef y treial mwyaf ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU."*

**Michael Sanders**

Prif Weithredwr yr Hyn sy'n Gweithio ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant

## Ymchwil werthusol

Un o nodau allweddol y bartneriaeth yw gwella ansawdd a maint yr ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddarganfod beth sy'n digwydd ym maes gofal cymdeithasol plant. Rydym wedi cael llwyddiant ysgubol o ran cael grantiau yn y maes hwn.

Yma rydym yn disgrifio dwy o'n hastudiaethau allweddol.

### Treial SWIS – hap-dreial dan reolaeth o waith cymdeithasol mewn ysgolion

#### Yr angen am yr astudiaeth

Mae ‘gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion’ (SWIS) yn dreial a ariennir gan yr Adran Addysg yn Lloegr. Y syniad canolog yw y gall cael gweithiwr cymdeithasol mewn ysgol uwchradd fod â sawl budd. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r gwasanaeth a ddarperir i blant a theuluoedd, gwella gwaith rhyngasiantaethol, lleihau risgiau i blant a'r angen am amddiffyn neu ofal plant, a helpu plant i gael gwell canlyniadau.

#### Dull

Mae'r treial yn cynnwys 21 o awdurdodau lleol a 291 o ysgolion yn Lloegr – sef, yn ein barn ni, yr hap-dreial dan reolaeth mwyaf a gynhaliwyd ym maes gofal cymdeithasol plant yn y DU erioed. Mae'r astudiaeth yn cymharu deilliannau rhwng ysgolion sydd â gweithiwr cymdeithasol a'r rhai sy'n parhau fel arfer, heb weithiwr cymdeithasol wedi’i leoli ar y safle. Dewiswyd ysgolion ar hap o gronfa a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol i dderbyn gweithiwr cymdeithasol, fel y gallwn fod yn hyderus bod unrhyw wahaniaethau a welwn yn deillio o bresenoldeb y gweithiwr cymdeithasol ar y safle.

Y prif ganlyniad rydym yn ei brofi yw ymholiadau amddiffyn plant, ond byddwn hefyd yn dadansoddi canlyniadau gofal cymdeithasol ac addysgol eraill i weld pa effaith y mae'r ymyriad yn ei chael. Bydd yr astudiaeth hefyd yn ystyried costau cynnal gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion, yn ogystal ag elfen gweithredu a phrosesu a fydd yn archwilio sut a pham y mae'r ymyriad yn gweithredu fel y mae.

Mae'r astudiaeth yn cynnwys tîm aml-sefydliadol o Gaerdydd (CASCADE a'r Ganolfan Treialon Ymchwil) a Rhydychen (Adran Gwyddorau Iechyd Gofal Sylfaenol Nuffield). Cyfanswm y cyllid hyd yma yw tua £750,000.

#### Effaith a dylanwad

Mae'r Adran Addysg wedi nodi, os yw'r canlyniadau'n ffafriol, eu bod yn bwriadu ei hehangu i bob awdurdod lleol yn Lloegr. Mae'r canfyddiadau'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar benderfyniadau polisi, ledled Lloegr a chyda'r potensial o ddiddordeb rhyngwladol – yn ogystal â goblygiadau i Gymru. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.

**David Westlake**

Prif Ymchwilydd, treial Gweithwyr Cymdeithasol mewn Ysgolion

# A all Rowndiau Schwartz helpu staff gofal cymdeithasol i reoli straen sy'n gysylltiedig â gwaith? Hap-dreial dan reolaeth yn Lloegr

## Yr angen am yr astudiaeth

Defnyddir Rowndiau Schwartz yn eang mewn lleoliadau gofal iechyd ond nid ydynt wedi'u gwerthuso o'r blaen ym maes gofal cymdeithasol plant. Mae Rowndiau Schwartz yn gyfarfodydd misol, sy'n agored i'r holl staff, lle mae pobl yn dod at ei gilydd ac yn rhannu straeon am effaith gymdeithasol ac emosiynol eu gwaith. Mae Rowndiau Schwartz yn cynnig ffordd ddefnyddiol o gefnogi gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol eraill i reoli gofynion ymarfer a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant a'u teuluoedd.

## Dull

Mae'r prosiect 24 mis hwn yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â deuddeg awdurdod lleol yn Lloegr, a ariennir gan Yr Hyn sy'n Gweithio ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant. Y nod yw profi p'un a yw presenoldeb mewn Rowndiau Schwartz yn helpu i leihau straen sy'n gysylltiedig â gwaith, a pha fanteision a allai fod gan hyn ar gyfer lles personol, perthnasoedd colegol, a gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd.

## Canfyddiadau

Roedd cam un y prosiect, a ddaeth i ben yn 2020, yn cynnwys staff o chwe awdurdod lleol, gyda Rowndiau Schwartz yn cael eu darparu'n bersonol. Roedd cam dau'r prosiect, a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, yn cynnwys chwe awdurdod arall, gyda'r Rowndiau Schwartz yn cael eu darparu'n rhithwir o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Dangosodd canfyddiadau dros dro o gam un fod presenoldeb rheolaidd yn gysylltiedig â lefelau straen is, gostyngiad mewn problemau seicolegol difrifol, a llai o ddiwrnodau o absenoldeb sy'n gysylltiedig â salwch. Roedd yr adborth ansoddol gan staff yn gadarnhaol iawn, gydag amrywiaeth o fanteision wedi'u nodi mewn perthynas â lles personol, perthynas â chydweithwyr, a gweithio gyda theuluoedd.

## Effaith a dylanwad

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar adroddiad terfynol y prosiect. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol dan sylw wedi parhau i ddarparu Rowndiau Schwartz ar gyfer eu staff, y tu hwnt i ddiwedd y treial. Mae hyn yn awgrymu, i lawer ohonynt, eu bod wedi profi gwerth Rowndiau Schwartz ac yn eu gweld fel un elfen bwysig ar gyfer cefnogi staff gofal cymdeithasol.



**Dr David Wilkins**

Prif Ymchwilydd, treial Rowndiau Schwartz

# Cysylltu data

Ein hail faes allweddol ar gyfer datblygu ymchwil yw cysylltu data – gan ddefnyddio setiau data gweinyddol presennol, fel y gallwn ddeall patrymau defnyddio gwasanaethau a chanlyniadau allweddol. Mae cysylltu data yn cynnig cyfle i ni wneud gwaith dilynol llawer hirach a dadansoddi samplau llawer mwy a mwy cynrychioliadol na mathau eraill o ymchwil. Mae gennym nifer o brosiectau newydd yn y maes hwn, ond yma rydym am adrodd ar ein gwaith sy'n ymwneud â llety diogel, a ddechreuodd gydag ymchwil fwy confensiynol ac sydd bellach wedi esblygu i ddefnyddio setiau data sy'n bodoli eisoes.

## Llety diogel

### Yr angen am yr astudiaeth

Mae plant sy'n cael eu cyfeirio at Gartrefi Diogel i Blant gan awdurdodau lleol ymhlith y rhai sydd fwyaf mewn perygl yn y DU, gyda hanes nodweddiadol o esgeulustod a cham-drin cyson. Gwneir atgyfeiriadau i Gartrefi Diogel i Blant pan fydd plant yn arddangos ymddygiadau mor ddifrifol a pheryglus fel na ellir eu rheoli'n ddiogel o fewn y system ofal arferol. Mae Cartrefi Diogel i Blant yn gofalu am blant mewn amgylchedd dan glo ac mae gosod pobl ifanc dan oed yn y lleoliadau hyn yn ddadleuol. Mae hyn, a phrinder tystiolaeth am y profiadau a'r canlyniadau i blant a leolir yn y cartrefi hyn, wedi sbarduno pryder ar lefelau uchaf polisi ac ymarfer. Mae'r pryder hwn yn cael ei ddwysáu gan ein hymwybyddiaeth nad yw pob plentyn sy'n cael ei gyfeirio at Gartrefi Diogel i Blant yn cael cynnig lle, gyda llawer yn cael eu lletya mewn lleoliadau a ganfuwyd neu a grëwyd gan eu hawdurdod lleol yn lle hynny.

### Dulliau

Mae CASCADE wedi cynnal dwy astudiaeth arloesol sy'n canolbwyntio ar Gartrefi Diogel i Blant, un yn gorffen ac un yn dechrau yn 2020. Comisiynwyd yr astudiaeth gyntaf gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac archwiliodd y profiadau a'r canlyniadau ar gyfer carfan o blant a atgyfeiriwyd at Gartrefi Diogel i Blant am resymau lles. Roedd yr ail astudiaeth yn cysylltu gwybodaeth atgyfeirio â data ar blant mewn gofal ledled Lloegr, i fapio'r lleoliadau a'r canlyniadau ar gyfer plant a aeth i Gartrefi Diogel i Blant a grŵp cymharu a gafodd eu hatgyfeirio ond na chafwyd llety o ganlyniad i ddiffyg lleoedd. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad cost a budd.

### Canfyddiadau

Amlygodd canfyddiadau'r astudiaeth gyntaf fethiant y system i fynd i'r afael ag ymddygiadau'r plant mewn lleoliadau yn y gymuned a'u rheoli, a sut yr arweiniodd yr achosion o leoliadau'n methu a ddeilliodd o hynny at waethygu ymddygiadau ymhellach a chynyddu anawsterau wrth ddod o hyd i leoliadau newydd. Arweiniodd hyn yn aml at ofal llai na'r gorau a gwaethygu yn sefyllfa'r plentyn.

***Parhad...***

Er bod yr amser a dreuliwyd mewn Cartrefi Diogel i Blant yn aml yn cael effaith gadarnhaol – gyda llawer o blant yn ymateb yn dda i'r amgylchedd diogel arferol ar ôl ymgartrefu – roedd ffactorau eraill, gan gynnwys profiadau trawmatig o bontio a derbyniad i'r uned ac amgylchedd moel rhai unedau, yn anodd ac yn cael eu hystyried yn amhriodol gan y plant, fel yr oedd rhannu llety gyda phreswylwyr a oedd wedi ymuno drwy'r system cyfiawnder troseddol. Un thema bwysig a nodwyd yn nhaflwybrau’r plant cyn, o fewn ac ar ôl hynny oedd diffyg darpariaeth o gymorth iechyd meddwl digonol. Lle'r oedd gwasanaethau cyson da yn cael eu darparu, roedd y plant yn tueddu i wneud cynnydd gwell. Yn anffodus, prin oedd hyn.

Canfu'r astudiaeth cysylltu data fod tua dwy ran o bump o'r plant a gyfeiriwyd at Gartref Diogel i Blant yn cael eu rhoi mewn llety amgen. Roedd hanes o ymddygiad heriol, troseddu, cysylltiad â gangiau ac ymddygiadau sy'n niweidio'n rhywiol yn cynyddu'r tebygolrwydd hwn, fel yr oedd bod yn wrywaidd ac yn hŷn – felly nid oedd llety diogel yn delio â'r plant â'r lefelau uchaf o angen. Cafodd mwy o'r plant a leolwyd mewn llety amgen eu hailgyfeirio'n gyflym at Gartref Diogel i Blant neu leoliad diogel arall ar ôl gadael, gyda chanlyniadau i'r ddau grŵp yn gymharol wael. Roedd darparu llety diogel yn ymddangos yn opsiwn drud iawn.

## Effaith a dylanwad

Mae'r canfyddiadau eisoes yn cael dylanwad mawr, gyda llywodraethau Cymru a Lloegr yn cynllunio cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau a gomisiynir ar y cyd sy'n darparu llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol lefel uchel a chymhleth. Mae llety diogel hefyd yn un maes y mae'r Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant yn Lloegr yn canolbwyntio arno. Mae ein diddordeb ymchwil yn y maes hwn yn parhau i fod yn weithredol – gyda chynigion sy’n cysylltu setiau data mawr i archwilio canlyniadau hirdymor a chymharu dulliau gweithredu ar draws pedair gwlad y DU yn cael eu paratoi. Mae hwn yn grŵp allweddol o blant; mae’r ddarpariaeth bresennol yn ddrud iawn ac mae cwestiynau difrifol ynghylch sut y gallem sicrhau ei bod yn fwy effeithiol.

**Dr Annie Williams**

Prif Ymchwilydd, Astudiaethau Cartrefi Diogel i Blant



## Effaith ymchwil

Gobeithiwn y bydd ein holl waith yn gwneud gwahaniaeth – ond mae rhai o'n hastudiaethau yn arbennig o agos at ymarfer. Mae'r rhain yn cynnig cyfle i ni ddatblygu dealltwriaeth fanwl o'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a phlant – a'r posibilrwydd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol mwy uniongyrchol.

*"Mae ymchwilwyr CASCADE wedi datblygu ein gwaith i fynd i'r afael â'r gyrwyr a'r ymatebion effeithiol i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn destun cam-fanteisio a/neu wedi cael eu denu i droseddu. Dyfarnwyd cyllid i Dr Clive Diaz i archwilio gweithrediad y canllawiau newydd ar Ddiogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol. Datblygwyd y canllawiau hyn gan Dr Sophie Hallett o CASCADE yn seiliedig ar ei hymchwil helaeth yn y maes hwn. Dyfarnwyd cyllid i Dr Nina Maxwell mewn partneriaeth â Barnardo's ar gyfer prosiect gyda'r nod o ddatblygu ymateb cymunedol wedi'i gydlynu i gamfanteisio ar blant yn droseddol a phrosiect ar wahân i werthuso Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Gweithredu dros Blant, sef rhaglen arloesol sydd ar gael yng Nghymru, Lloegr a'r Alban â'r nod o ddargyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o fywyd o droseddau cyfundrefnol difrifol ... Defnyddiwyd adroddiadau CASCADE i lywio'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr Uned Atal Trais ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod."*

**Jonathan Drake**

Cyfarwyddwr, Uned Atal Trais Cymru

## Llinellau cyffuriau: ymateb cymunedol cydgysylltiedig yng Nghymru i gam-fanteisio ar blant yn droseddol.

Mae'r prosiect 18 mis hwn yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â Barnardo's ac fe'i cefnogir gan Uned Atal Trais Cymru Gyfan, sydd wedi blaenoriaethu atal trais difrifol sy'n gysylltiedig â cham-fanteisio troseddol a throseddau cyfundrefnol difrifol fel un o'i meysydd allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Nod y prosiect yw datblygu pecyn cymorth ar y cyd â phobl ifanc, rhieni ac ymarferwyr sy'n gwella ymatebion gwasanaethau a chymunedol i bobl ifanc sydd mewn perygl neu sy'n ymwneud â gam-fanteisio ar blant yn droseddol. Defnyddir canfyddiadau'r prosiect i lywio ymarfer drwy wneud cyfraniad sylweddol i'r hyn sy'n hysbys am gamfanteisio ar blant yn droseddol yng Nghymru a pha ymyriadau a dulliau gweithredu sydd fwyaf effeithiol.

Mae tri cham i'r prosiect. Dechreuodd cam un ym mis Hydref ac mae'n cynnwys nodi sut y caiff plant eu targedu, eu recriwtio a'u cynnwys mewn camfanteisio troseddol ledled Cymru, ac archwilio pa ddulliau ac ymyriadau sydd fwyaf effeithiol ar gyfer adnabod, atal a diogelu plant sydd mewn perygl o gamfanteisio troseddol. Yng ngham dau, bydd ymateb gwasanaeth effeithiol yn cael ei ddatblygu gan banel arbenigol o dan gadeiryddiaeth Jan Pickles OBE (cyn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd) ac sy'n cynnwys pobl ifanc a rhieni sydd â phrofiad bywyd ac amrywiaeth o randdeiliaid o sectorau statudol ac anstatudol. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt i nodi datrysiadau. Yn olaf, yng ngham tri, bydd y pecyn cymorth yn cael ei dreialu a'i fireinio gan ddefnyddio model ymchwil weithredu.

**Dr Nina Maxwell**

Prif Ymchwilydd, prosiect Llinellau Cyffuriau

# Cyflawniadau ymchwil



Dr Mae Martin Elliott, ymchwilydd Partneriaeth CASCADE, wedi ennill nid un, ond dwy, o wobrau am ei bapur ar anghydraddoldebau lles plant, gan ennill gwobr Cymdeithas Ymchwil Gwaith Cymdeithasol Ewrop am gyhoeddiad rhagorol ar sail traethawd ymchwil ddoethurol a gwobr BASW Kay McDougall am y cyhoeddiad gorau yn y British Journal of Social Work yn 2020. Dr Dywedodd Elliot, "Mae cael cydnabyddiaeth am eich ymchwil a'ch ysgrifennu fel ymchwilydd yn gynnar yn eich gyrfa yn wych. Roedd ennill dwy wobr am yr erthygl cyfnodolyn cyntaf rwyf wedi'i hysgrifennu ar fy mhen fy hun yn sioc wirioneddol."




Mae dau ymchwilydd o fewn Partneriaeth CASCADE yn cymryd rhan yn rhaglen Crwsibl Cymru eleni, sef cyfres o gyfarfodydd a gweithdai ar gyfer ymchwilwyr rhyngddisgyblaethol ac arweinwyr ymchwil y dyfodol ledled Cymru. Gyda'r rhaglen yn cael ei chynnal ar-lein am y tro cyntaf, treuliodd Dr Hannah Bayfield a Dr Nina Maxwell ddeuddydd yn rhannu eu hymchwil gydag ymchwilwyr o'r gwyddorau, y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau, yn ogystal ag arbenigwyr yn y cyfryngau a llunwyr polisi o bob rhan o'r DU. "Gall gwneud sesiynau fel hyn ar-lein fod yn frawychus," meddai Hannah, "ond mae tîm Crwsibl Cymru wedi llunio rhaglen ysgogol a diddorol. Rwy'n edrych ymlaen at y sesiynau nesaf yn barod." Mae Crwsibl Cymru yn parhau gyda sesiynau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf.

*“Rwy'n teimlo cymaint o anrhydedd i fod yn cynnal fy Ngwobr Ysgoloriaeth Fulbright yn CASCADE. Mae ehangder a dyfnder ymchwil y ganolfan ar ofal cymdeithasol plant, ynghyd â'i hymrwymiad gwirioneddol i drosi canfyddiadau i faes llywio polisi ac ymarfer, yn ddigyfaddawd. Mae ysgoloriaeth CASCADE ar draws disgyblaethau a sectorau gwasanaeth, gan ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol, yn unigryw ar gyfer canolfannau ymchwil mewn prifysgolion. Rwy'n gwerthfawrogi parodrwydd ei staff i gydweithio â mi ar lu o brosiectau yn ystod fy nghyfnod ym Mhrifysgol Caerdydd, a ddylai arwain at bartneriaethau rhyngwladol newydd sy'n addo gwella canlyniadau i blant a theuluoedd ar ddwy ochr yr Iwerydd."*



**Yr Athro Heather Taussig**

Ysgol Gwaith Cymdeithasol i Raddedigion Prifysgol Denver

# 5. Ymgysylltu a Chynnwys

## Lledaenu'r gair: Y Cyfryngau

Rydym wedi gweithio'n galed i ddatblygu presenoldeb ar y cyfryngau digidol o ansawdd uchel; mae hyn wedi bod hyd yn oed yn bwysicach mewn blwyddyn pan oedd yn teimlo bod ein bywydau cyfan wedi mynd ar-lein. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi:

- Datblygu gwefannau sydd newydd eu lansio ar gyfer ExChange a CASCADE, gan sicrhau bod Partneriaeth CASCADE yn cael ei hyrwyddo.
- Cynnal digwyddiadau a chyflwyniadau ar-lein.
- Lansio cyfres podlediad newydd a chyffrous.
- Gweithredu cyfres o themâu cynhadledd ar-lein.
- Cynyddu ymgysylltiad ein cyfrifon Twitter.



### Uchafbwyntiau yn y cyfryngau 2020/21

**29,300**
Ymweliadau tudalen we

**3,953**
Dilynwyr

**2,598**
Fideos wedi'u gwylio

**53,800**
Bwletin yn agor

*"Mae wedi bod yn braf gweld Partneriaeth CASCADE ac ExChange yn mynd o nerth i nerth. Mae'r model cyfres gynadledda ExChange newydd yn gweithio'n dda, ac rydym wedi cael diddordeb a defnydd mawr. Mae'r angen i symud ar-lein wedi cael effaith gadarnhaol, gan ein bod wedi cael mwy o bresenoldeb mewn digwyddiadau, gyda phobl yn gallu 'galw heibio' am seminar amser cinio. Mae hefyd wedi golygu ein bod wedi gallu ymestyn ein cyrhaeddiad, gan ddarparu ystod o siaradwyr rhyngwladol, gyda chynrychiolwyr yn gallu mynychu o'r tu allan i Gymru. Mae cofnodi sesiynau hefyd wedi galluogi pobl i gael mynediad at ymchwil a gwybodaeth yn eu hamser hamdden."*

**Dr Alyson Rees**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, CASCADE

## Ymgysylltu â'r sector: rhwydwaith ExChange

ExChange yw’r rhwydwaith ymgysylltu ymchwil gofal cymdeithasol Cymru gyfan. Wedi'i ariannu i ddechrau drwy'r Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol, o fis Hydref 2020 daeth Partneriaeth CASCADE yn gartref i ExChange. Nod ExChange yw ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol gydag ymchwil drwy ddarparu digwyddiadau ac adnoddau, ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a phlant.

Creodd y pandemig heriau sylweddol i ExChange. Bu'n rhaid canslo ein cynnig arferol o weithdai a chynadleddau wyneb yn wyneb, a symudom yn gyflym i ddarpariaeth ar-lein. Mae hyn wedi bod yn hynod lwyddiannus. Mae dros 1,200 o bobl wedi mynychu digwyddiadau ar-lein, gyda nifer tebyg yn eu cyrchu'n ddiweddarach – ac erbyn hyn mae gennym 1,300 o bobl ar ein rhestr e-bost bob pythefnos. Rydym yn weithgar ar y cyfryngau cymdeithasol ac wedi gweld ein dilynwyr ar gyfrifon Twitter yn cynyddu 15% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol a chyffrous i ehangu'r cyrhaeddiad hwn ymhellach, drwy drefnu digwyddiadau o amgylch chwe chyfres gynadledda â thema bob blwyddyn, cynyddu ein blogiau a'n hadolygiadau o erthyglau, darparu podlediadau, a gwella ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae darparu ar-lein wedi golygu ein bod yn gallu ychwanegu siaradwyr rhyngwladol at ein carfan – ac rydym bellach yn denu gwylwyr o mor bell i ffwrdd ag UDA, Awstralia a Sgandinafia.

Mae ein blwyddyn gyntaf hefyd wedi gweld sefydlu grŵp rhanddeiliaid o ymarferwyr, a grŵp cynghori o uwch-academyddion y DU sy'n darparu argymhellion ar gynnwys yn y dyfodol.

ExChange CASCADE

### Digwyddiadau Byw ExChange 2020-2021

**24**
**o ddigwyddiadau**

**835**
**yn bresennol**

**Cynnydd o 50%** mewn tanysgrifwyr rhwydwaith ExChange

**Cyrhaeddiad rhyngwladol**

Erbyn hyn, mae gan rwydwaith ExChange aelodau o **UDA, Denmarc, Sweden, Gwlad Belg, Tsieina, Awstralia, Portiwgal, yr Almaen, yr Eidal, Norwy**

*"Mae gweminarau ExChange wedi bod yn wych, gan fy helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y pandemig. Mae’r adolygiadau o erthyglau ar y wefan yn dda iawn hefyd. Diolch.”*

*"Mae’n wych cael y recordiadau o weminarau ar gael yn rhydd i'w gwylio ar eu cyfleustra eu hunain."*

*"Bu bwletinau byr yn effeithiol, yn glir ac yn llawn gwybodaeth."*

*"Heb eich adnoddau a'ch gweithdai am ddim, byddai gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ymchwil a thystiolaeth sy'n angenrheidiol ac yn hanfodol ar gyfer eu hymarfer."*

**Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)**

## Cynnwys y cyhoedd

Rydym yn ymdrechu i gynnwys plant, pobl ifanc â phrofiad gofal, rhieni a gofalwyr ar draws ein gwaith – gan helpu i lunio'r agenda ymchwil, darparu beirniadaeth adeiladol o'n syniadau, a'n helpu i rannu ein canfyddiadau. Mae'n debyg mai'r rhan hon o'n gwaith gafodd yr ergyd fwyaf gan y pandemig – mae gwaith ymgysylltu da, yn fwy na dim, wedi'i adeiladu ar berthnasoedd, ac mae datblygu perthnasoedd â phobl newydd yn llawer anoddach ei gyflawni pan na allwn gyfarfod wyneb yn wyneb.

Mae'r ffaith bod y maes hwn o'n gwaith wedi datblygu cymaint mewn amgylchiadau anodd yn deyrnged i ymrwymiad eithriadol Rachael Vaughan, ein gweithiwr cynnwys ymroddedig. Mae'r datblygiadau allweddol wedi cynnwys:



**Sefydlu bwrdd strategol o arbenigwyr drwy brofiad** i oruchwylio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu gwaith cynnwys Partneriaeth CASCADE. Bydd y bwrdd yn adolygu ac yn monitro ein cynnydd yn ogystal â chynnig syniadau ar draws y ganolfan yn unol â safonau cynnwys y cyhoedd. Mae'r aelodau'n cynnwys y rhai sydd â phrofiad o ofal, mabwysiadu, digartrefedd, maethu ac amddiffyn plant fel rhiant. Sefydlwyd y grŵp ym mis Medi 2020 ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys cysylltiadau sy'n bodoli eisoes drwy ein gwaith ymgysylltu a chynnwys ehangach. Dyma enghreifftiau o'u cyfraniad:

- Datblygu ein lleoliadau â thâl: awgrymodd y grŵp gynnig cyfleoedd gweinyddol neu ddigwyddiadau pwrpasol, y mathau o gymorth a fyddai'n ddefnyddiol, ac adborth ar strategaeth recriwtio.
- Ein cynghori a'n cefnogi i recriwtio a datblygu ein Grŵp Cynghori ar Ymchwil i Rieni.
- Mae'r grŵp wedi rhoi adborth beirniadol ac ystyrlon ar y ffordd orau o ymgysylltu â'r cyhoedd, o ran y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

*"Bob amser yn hwb mor anhygoel i deimlo y gallech chi fod yn gwneud gwahaniaeth i eraill, felly rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle!"*

**Aelod o'r Bwrdd Cynnwys**

## Sefydlu grŵp cynghori ymchwil i rieni

Mae gan bob aelod o'n grŵp cynghori ymchwil i rieni newydd brofiad bywyd o ofal cymdeithasol plant fel rhieni a gofalwyr. Sefydlwyd y grŵp hwn ym mis Rhagfyr 2020 ac mae eisoes wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'n gwaith. Wrth i'r grŵp dyfu, byddwn yn cynnig hyfforddiant Dulliau Ymchwil i'r holl aelodau i gefnogi eu hadborth a'u cyfraniad i'n hymchwil. Rydym hefyd yn cynnig tâl am eu hamser ac yn talu treuliau yn unol â safonau cynnwys y cyhoedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn ac yn creu rhwydwaith o rieni sydd â phrofiad bywyd o ofal cymdeithasol plant i ymgysylltu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o ffyrdd yn y bartneriaeth. Rydym wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i'r rheini a hoffai gyfrannu mewn ffordd ystyrlon. Mae enghreifftiau o effaith gychwynnol yn cynnwys:


- Darparu adborth pendant ar gwestiynau ymchwil a sut i lunio canfyddiadau ar gyfer dau o'n prosiectau – un yn archwilio sut mae ffactorau rhieni yn cael effaith ar blant sy'n dod yn rhan o'r system ofal a'r llall yn dehongli arolwg o weithwyr cymdeithasol am gyfraddau gofal yng Nghymru.
- Tynnu sylw at faterion a blaenoriaethau y dylid ymchwilio iddynt, er mwyn i Bartneriaeth CASCADE eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau newydd.

*"Rhoddodd y grŵp drosolwg defnyddiol iawn o rai o'r materion teuluol/aelwydydd yr oeddent yn teimlo eu bod yn berthnasol o ran effeithio ar sut mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut i fynd â phlant i ofal ... rhowch wybod iddynt pa mor ddefnyddiol fydd cael eu mewnbwn, yn fy marn i, pan fyddaf yn datblygu'r grwpiau ffocws i redeg mewn awdurdodau lleol."*

**Dr Nell Warner**

Ymchwilydd CASCADE

## Gweithgareddau Cynnwys y Cyhoedd




**Lleisiau CASCADE** 11 o weithgareddau

**Bwrdd Cynnwys CASCADE** 3 gweithgaredd

**Grŵp cynghori ymchwil i rieni CASCADE** 5 gweithgaredd

**Cyfleoedd eraill** 17 o weithgareddau

gan gynnwys sesiynau adborth, cydweithrediad ymchwil, hyfforddiant a chymorth ymchwilwyr cymheiriaid.

## Datblygu rhwydweithiau ehangach

Yn ogystal â chynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol, mae ein rhwydweithiau ehangach o ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi ein hymchwil a'n gallu i ymgysylltu â'r sector. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithgor Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru.
- Bwrdd polisi Voices From Care Cymru.
- Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd DECIPHer.

## Parhau â'n gwaith gyda Lleisiau CASCADE

Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc â phrofiad o ofal yn cynghori ar brosiectau ymchwil o’r cam dylunio i’w lledaenu, ac mae'n cynrychioli cydweithrediad sefydledig rhwng Voices from Care Cymru a CASCADE. Mae hyfforddiant mewn dulliau ymchwil a hwyluso grŵp yn cael eu cynnal gan CASCADE. Yn ystod y pandemig, mae'r grŵp hwn wedi symud ar-lein yn llwyddiannus ac yn cyfarfod yn fisol. Mae'r symudiad hwn ar-lein wedi rhoi cyfleoedd i'r rhai sy'n byw ymhellach o Gaerdydd gymryd mwy o ran ac mae'r ffordd rydym yn gweithio wedi'i phenderfynu gyda'r grŵp. Mae enghreifftiau o'u cyfraniadau yn cynnwys:

- Treialu dulliau ymchwil ar-lein, gan gynnwys defnyddio gweithgareddau i'w cwblhau gydag ymchwilwyr dros Zoom. Roedd y grŵp yn gallu rhoi cyngor ac adborth manwl i wella ymchwil a datblygu dulliau creadigol mwy deniadol i'w defnyddio wrth gynnal ymchwil o bell.
- Ysbrydolodd a chydweithiodd y grŵp ar brosiect ymchwil ymadawyr gofal yn sgil COVID-19 CASCADE a Voices from Care Cymru, sef astudiaeth gyda'r nod o archwilio profiadau ymadawyr gofal o gyfyngiadau symud. Roedd hyn yn cynnwys tynnu sylw at y mater cychwynnol, dilysu'r canlyniadau, yna cyd-gynhyrchu a chyflwyno gweithgareddau lledaenu, gan gynnwys gweithdy yng nghynhadledd ar-lein ryngwladol Canolfan Kempe a digwyddiad ExChange.

*"Rwy'n ei fwynhau ac rwy'n hoffi sut rydym yn cael gweld beth sy'n digwydd gyda'r ymchwil a'r wybodaeth a ddarparwn."*

*"Dwi'n meddwl i mi mai'r peth gorau yw gwybod fy mod i wedi cael effaith. Pan fydd ymchwilwyr yn dod yn ôl, ac maen nhw wedi defnyddio'r hyn rydw i wedi'i ddweud."*

**Pobl ifanc Lleisiau CASCADE**

## Cyflogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Mae ein cyllid seilwaith yn cynnwys cyfleoedd gwaith â thâl i bobl ifanc â phrofiad o ofal – fel y gallant gyfoethogi ein gwaith a chefnogi eu datblygiad gyrfaol. Mae hon yn elfen rydym wedi cytuno i'w gohirio yn sgil y pandemig – byddwn yn awr yn cynnig mwy o gyfleoedd yn ystod y ddwy flynedd nesaf pan allwn gyfarfod wyneb yn wyneb a darparu profiad mwy defnyddiol. Er gwaethaf hyn, mae ymchwilydd cymheiriaid (aelod o Lleisiau CASCADE) wedi'i gyflogi i weithio ar astudiaeth gydweithredol gyda DECIPHer, CASCADE a Rhwydwaith Maethu Cymru. Ariennir y prosiect gan rwydwaith TRIUMPH a bydd yn archwilio sut i ddatblygu rhaglenni ar-lein ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

*"Rwyf wedi bod yn gweithio ar yr holl ddogfennau gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc, yn datblygu’r cwestiynau cyfweliad ac yn gwneud y cyfweliadau gyda Rachael. Fel rhan o brofi'r iaith yn y cwestiynau, cefnogais sesiwn adborth cynnwys defnyddwyr gyda grŵp pobl ifanc y Rhwydwaith Maethu ... Rwyf wedi dysgu sut i gyfweld â phobl a pha mor anrhagweladwy y gall fod. Dyna'r peth mwyaf rwyf wedi'i ddysgu. Rwyf wedi dysgu bod ymchwil yn digwydd yn llawer arafach nag yr oeddwn yn ei feddwl. Gall rhywun sydd â phrofiad bywyd siarad yr un iaith â'r cyfranogwyr. Gall ymchwilwyr cymheiriaid esbonio pethau i bobl ifanc yn well a gallant helpu pobl ifanc ac ymchwilwyr i ddeall y gwahanol safbwyntiau."*

**Ymchwilydd Cymheiriaid CASCADE**

# 6. Casgliad

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi ymdeimlad i chi o flwyddyn gyntaf Partneriaeth CASCADE. Mae wedi bod yn flwyddyn llawn heriau, ond rydym wedi ymateb iddynt gydag egni a phenderfyniad enfawr.

Rydym wedi cael llwyddiant eithriadol o ran cipio grantiau, datblygu ymchwilwyr, a chyhoeddi ein hymchwil. Mae rhai elfennau o'n gwaith – yn enwedig sut rydym yn ymgysylltu â'r sector – wedi'u gwella gan y symud i ddarparu ar-lein. Mae'r maes sydd wedi bod fwyaf heriol – sy'n cynnwys plant a rhieni – wedi gweld datblygiadau cadarnhaol pwysig ond bydd yn sicr yn dod yn gryfach pan allwn gyfarfod wyneb yn wyneb.

Y flwyddyn nesaf, mae CASCADE yn symud i safle newydd. Bydd Parc Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol cyntaf y byd (SBARC | SPARK) yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio traws-ganolfan, partneriaeth allanol a chydweithredol, gan gynnwys diwydiant, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd grwpiau ymchwil rhyngddisgyblaethol yn cyfuno mewn ffyrdd newydd mewn amgylchedd pwrpasol er mwyn creu gwybodaeth newydd ac atebion newydd i broblemau cymdeithasol mawr. Bydd gennym yr her strategol o barhau â'n llwyddiant wrth gipio grantiau, wrth gyflawni'r rhaglen uchelgeisiol yr ydym eisoes yn gweithio arni.

Ac eto, mewn rhai ffyrdd, mae'r rhain yn faterion arwynebol. Yr heriau dyfnach yw sicrhau bod ein gwaith yn arloesol, yn berthnasol, ac yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Y gyfrinach i'n llwyddiant hyd yma yw ein bod yn ceisio parhau i ganolbwyntio ar y nodau mwy sylfaenol hyn. Drwy wneud hynny, ein nod yw adeiladu ar lwyddiant cychwynnol calonogol iawn y bartneriaeth.

**Yr Athro Donald Forrester**

Cyfarwyddwr, Partneriaeth CASCADE

